# POLISI YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL A THROSEDD CASINEB

Dyddiad Cychwyn: [Awst 2012]

Dyddiad Adolygu Diwethaf: Hydref 2022

Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2025

Perchennog y Polisi: [Geraint Jones, Rheolwr Gwasanaethau Bro]

Pwynt Cyswllt y Polisi: [Geraint Jones, Rheolwr Gwasanaethau Bro, geraint.jones@adra.co.uk]

**CYNNWYS**


1. **Cyflwyniad**
2. **Cyfrifoldebau**
3. **Diffiniadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol**
4. **Mesurau Atal a Gorfodi**
5. **Cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion**
6. **Cefnogaeth ar gyfer deiliaid contractau agored i niwed ac adsefydlu cyflawnwyr**
7. **Cyffuriau**
8. **Cam-drin Domestig**
9. **Trosedd Casineb**
10. **Problemau gydag unigolion nad yw ein cwsmeriaid**
11. **Cyfrinachedd, rhannu data a diogelu data**
12. **Hyfforddi staff**
13. **Amddiffyn staff**
14. **Cwynion**
15. **Adolygu Penderfyniadau**
16. **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
17. **Cyfeiriadau**
18. **Adolygiad**

**Atodlen 1**
**Datganiad o weithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol**

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut y mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) a throsedd casineb.

1.2 Ein bwriad yw cynnal contractau, gan sicrhau hefyd bod ein preswylwyr yn fodlon o fewn ein cymunedau.

1.3 Yn y rhan fwyaf o achosion byddwn yn ceisio defnyddio ymyriadau cynnar, anffurfiol i ddatrys problemau cyn gynted â phosibl heb gamau cyfreithiol.

1.4 Mewn rhai achosion, er enghraifft lle mae tystiolaeth o ymddygiad troseddol difrifol, efallai y byddwn yn penderfynu cymryd camau gorfodi cryfach yn gynnar.

## 2.0 CYFRIFOLDEBAU

2.1 Mae Tîm Gwasanaethau Bro Adra yn gyfrifol am ddelio gydag YGG a throsedd casineb.

## 3.0 DIFFINIADAU O YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

3.1 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (2014) yn diffinio YGG fel:

a) Ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy’n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw unigolyn.
b) Ymddygiad sy'n medru achosi diflastod neu annifyrrwch i unigolyn mewn perthynas â meddiannaeth yr unigolyn hwnnw o’r eiddo preswyl, neu
c) Ymddygiad sydd â’r gallu i achosi diflastod neu annifyrrwch yn ymwneud â thai i unrhyw unigolyn.

3.2 Mae ymddygiad a allai dorri telerau ein contractau meddiannaeth yn eang a gall gynnwys yr enghreifftiau canlynol a restrir yn 3.5. Gall ymddygiad gwaharddedig hefyd gynnwys cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol)

3.3 Mae gwahaniaeth rhwng niwsans ar lefel isel a chamymddygiad cyson a difrifol. Bydd angen i ni sicrhau bod unrhyw gwynion a wneir yn ymwneud ag YGG mewn gwirionedd ac nad ydynt yn cael eu gwneud oherwydd ffyrdd o fyw sy’n gwrthdaro.

3.4 Bydd pob cais am feddiant ar gyfer YGG yn cael ei seilio ar dorri’r contract (a157)

3.5

| **Dyma enghreifftiau o ymddygiad yr ydym yn ei ystyried yn wrthgymdeithasol** | **Enghreifftiau o ymddygiad nad ydynt yn wrthgymdeithasol yn ein tyb ni** |
|---|---|
| Sŵn Gormodol (e.e. chwarae cerddoriaeth yn uchel, sgrechian, gweiddi, clepian drysau) | Babanod/plant bach yn crio |
| Aflonyddu/Bygythiadau/Cam-drin geiriol | Partïon untro neu farbeciws lle nad oes |
| | tystiolaeth y bydd y broblem yn codi eto |
| Niwsans gardd | Plant yn chwarae |
| Taflu neu gronni ysbwriel | |
| Anifeiliaid anwes/anifeiliaid (e.e. yn achosi difrod, gwneud sŵn gormodol, ymddwyn mewn modd bygythiol, baeddu mannau). | Sŵn gweithgareddau dydd i ddydd yn cario oherwydd inswleiddio sŵn gwael (e.e. cyfarpar domestig, drysau cypyrddau ayyb) |
| Loetran mewn mannau cyffredin | Ymddygiad dydd i ddydd yn digwydd ar amseroedd anarferol (e.e. oherwydd patrymau gwaith gwahanol). |
| Graffiti a/neu Fandaliaeth | |
| Cymryd/delio, meddu, trin, tyfu, cynhyrchu, storio neu werthu cyffuriau | |
| Cam-drin Domestig (gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol) | |
| Ymddygiad yn ymwneud ag alcohol | |
| Digwyddiadau yn ymwneud â chasineb gan gynnwys ar sail hil, lliw, crefydd, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. | |
| Geiriau neu ymddygiad sarhaus | |
| Puteindra | |
| Cadw nwyddau wedi'u dwyn yn yr eiddo | |
| Defnyddio’r eiddo at ddiben caethwasiaeth | |
| Ymddygiad amhriodol mewn perthynas â cherbydau (e.e. gyrru'n beryglus, gwneud sŵn gormodol gyda cherbydau, parcio mewn mannau amhriodol, rhwystro ffyrdd a/neu unrhyw fynediad arall i gerbydau neu achosi rhwystr). | |
| Ymyrryd neu ymyrryd ag unrhyw nwy, trydan, mesurydd dŵr neu unrhyw osodiadau eraill sy'n gwasanaethu'r eiddo | |

| | |
|---|---|
| Ymddygiad troseddol arall | |

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o gategorïau. Nod y rhestr yw dangos y math o ymddygiad dan sylw.

## 4.0 MESURAU ATAL A GORFODI

4.1 Bydd ein staff yn dewis y weithred fwyaf priodol i ddelio ag YGG sydd ar gael i Adra ar unrhyw adeg benodol. Rydym yn gweithredu fesul achos. Dyma rhai o'r ffyrdd y gallwn ddelio â'r sefyllfa

4.2 **Mesurau Atal**

(a) Cyfryngu
(b) Rhybudd Terfynol
(c) Gwasanaethau Ataliol
(d) Gweithdrefnau o fewn gosod tai
(e) Cyfarfodydd Aml Asiantaeth
(f) Cyfiawnder Adferol â'r Heddlu a Phartneriaid eraill
(g) Partneriaeth yn gweithio gydag ystod o asiantaethau

4.3 **Mesurau Gorfodaeth**

Rydym eisiau ceisio datrys problemau mor gyflym ag sy'n bosib heb gamau cyfreithiol. Fodd bynnag, os yw'n angenrheidiol, gallwn ddefnyddio'r mesurau gorfodi canlynol:

(a) Gwaharddebau
(b) Ymgymeriadau
(c) Achosion traddodi ar gyfer torri gwaharddeb/ymgymeriad
(d) Gorchymyn yn gosod contract safonol cyfnodol oherwydd ymddygiad gwaharddedig
(e) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
(f) Dileu Cyd-ddeiliad Contract fel parti i'r Contract trwy Orchymyn Llys
(g) Achosion Meddiant

Mae Adra yn ymwybodol, wrth ymgymryd ag achosion cyfreithiol, y dylai gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth amrywiol.

## 5.0 CEFNOGAETH AR GYFER DIODDEFWYR A THYSTION

5.1 Rydym yn deall y rôl bwysig y mae achwynwyr a thystion yn ei chwarae wrth ddatgelu, atal, ac wrth weithredu yn erbyn YGG a throseddau.

5.2 Byddwn yn delio â phob cwyn yn gyflym ac yn gadael i bobl wybod am yr holl ddatblygiadau. Bydd y swyddog sy'n delio â'r achos yn cynnig cyngor a chymorth.

5.3 Nid ydym yn bychanu'r lefel o ofn a bygythiad y mae rhai tystion, a dioddefwyr yn byw ag ef.

5.4 Diogelwch a lles tystion yw'r flaenoriaeth ym mhob achos.

5.5 Cynigir cymorth priodol i dystion a dioddefwyr gan staff gwasanaethau bro, neu os yw'n briodol gan asiantaeth gymorth berthnasol.

5.6 Mewn achosion sy'n symud ymlaen i wrandawiad Llys, gallwn wneud cais am le tawel i ffwrdd o'r Diffynnydd i aros cyn ac yn ystod y gwrandawiad.

5.7 Byddwn yn sicrhau bod pob tyst yn ymwybodol o'r broses sydd ynghlwm â hyn a lle'n briodol, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i dystion gwrdd â'n cynrychiolydd cyfreithiol cyn diwrnod y gwrandawiad.

## 6.0 <u>CEFNOGAETH AR GYFER DEILIAID CONTRACT AGORED I NIWED AC ADSEFYDLU CYFLAWNWYR</u>

6.1 Ein bwriad yw atal yr YGG rhag digwydd eto. Bydd y dystiolaeth ym mhob achos yn cael ei ymchwilio i weld os oes rheswm arall am yr ymddygiad, er enghraifft:

- Gwrthdaro rhwng ffordd o fyw
- Anghydfod hanesyddol rhwng teuluoedd
- Perthnasau'n torri lawr
- Triwanta o'r ysgol / achosion gwahardd
- Salwch meddwl
- Anawsterau dysgu
- Camddefnyddio / dibynnol ar sylweddau

6.2 Gallwn gynnig cymorth, lle'n briodol, ar gyfer y rhesymau sydd wrth wraidd y broblem / neu gyfeirio'r troseddwr at yr asiantaethau cefnogol

6.3 Os credir bod unigolyn agored i niwed mewn peryg o niwed sylweddol byddwn yn datgelu hynny wrth yr asiantaethau neu unigolion perthnasol yn unol â'n Polisi Diogelu Grwpiau Agored i Niwed.

6.4 Mewn achosion YGG lle mae plant neu bobl ifanc ynghlwm, byddwn yn ceisio dod i ddeall pam eu bod yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol a chynnwys eu rhieni / gwarchodwyr i geisio newid eu hymddygiad.

6.5 Gellir cyfeirio achosion perthnasol at yr adran gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a lles addysg / gwasanaeth ysgolion neu unrhyw asiantaeth berthnasol arall.

## 7.0 CYFFURIAU

7.1 Nid ydym yn goddef defnydd o'n cartrefi ac ystadau ar gyfer y cyflenwad o sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys cyffuriau rheoledig (fel sy'n cael ei ddiffinio yn y Ddeddf Camddefnydd Cyffuriau 1971).

7.2 Bydd Adra, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, yn cymryd camau gorfodi (h.y. y rhwymedïau a restrir yn 4.3) yn erbyn y rhai y profwyd eu bod wedi defnyddio eu cartref i gyflenwi sylweddau anghyfreithlon.

7.3 Os yw Adra wedi derbyn tystiolaeth (e.e. gwarant chwilio positif yn cael ei weithredu yn eich cartref) bod sylweddau anghyfreithlon yn cael eu cadw/cymryd/trin//tyfu mewn unrhyw un o'u cartrefi at ddefnydd personol, bydd Adra yn ystyried cymryd camau gorfodi (fel y nodir yn 4.3 o'r polisi hwn). Fodd bynnag, gall Adra benderfynu mynd i'r afael â'r mater drwy ddefnyddio mesurau atal (fel y nodir yn 4.2 o'r polisi hwn) yn dibynnu ar amgylchiadau'r mater.

7.4 Os codir amheuon bod sylweddau anghyfreithlon yn cael eu cadw/cymryd/trin/tyfu yn eich cartref, ond na all Adra gael tystiolaeth ffisegol o hynny, bydd Adra yn ymchwilio ac yn ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael iddi wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl, sydd fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

7.5 Bydd Adra yn ystyried pob mater fesul achos a gall ofyn am gyngor cyfreithiol ar y ffordd orau i ddelio â'r mater.

7.6 Bydd 7.1, 7.2 a 7.3 yn berthnasol i unrhyw unigolyn y canfyddir ei fod wedi defnyddio (ei hun neu drwy orchymyn, annog, neu ganiatáu rhywun arall) o fewn ein cartrefi neu dir ar gyfer dibenion o'r fath.

## 8.0 CAM-DRIN DOMESTIG

8.1 Ni fyddwn yn goddef cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn drosedd ac yn torri amodau'r contract.

8.2 Byddwn yn gweithredu yn unol â'n Polisi Cam-drin Domestig, ac yn gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill i ddefnyddio pwerau cyfreithiol lle bo'n briodol i fynd i'r afael â throseddwyr cam-drin domestig.

8.3 Byddwn yn ceisio:

- Cynnig cefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol sy'n bartneriaid i ni.
- Gweithio ag asiantaethau partner i gynorthwyo i ganfod llety dros dro neu ailgartrefu dioddefwyr os yw hynny'n briodol
- Gweithio ag asiantaethau eraill i gael canlyniad cadarnhaol.
- Gweithio ag Uned Gwarchod y Teulu'r Heddlu lle mae rhaid ymgymryd â chamau gorfodi.

8.4 Os yw'r dioddefwr yn dymuno aros yn ei gartref, efallai y byddwn yn ystyried gwneud cais am Orchymyn Gwaharddeb yn gwahardd y cyflawnwr o'r cartref neu'r ardal os oes digon o dystiolaeth ar gael.

## 9.0 <u>TROSEDD CASINEB</u>

9.1 **Trosedd casineb** yw unrhyw drosedd sydd wedi'i thargedu at berson oherwydd gelyniaeth neu ragfarn tuag at y canlynol:

- Anabledd
- Hil neu ethnigrwydd
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hunaniaeth drawsryweddol

Nid oes rhaid i'r dioddefwr fod yn aelod o'r grŵp y mae'r elyniaeth wedi'i dargedu ato. Yn wir, gallai unrhyw un fod yn ddioddefwr trosedd casineb.

9.2 **Mae Digwyddiadau Casineb yn ddigwyddiadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy troseddol**, ond y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn eu hystyried i gael eu hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar ganfyddiad person neu'r ffactorau canlynol:

- Anabledd
- Hil neu ethnigrwydd

- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hunaniaeth drawsryweddol

9.3 Ni fyddwn yn goddef bod unigolyn yn cael ei dargedu ac yn goddef casineb a / neu aflonyddu. Byddwn yn cymryd agwedd 'credu' pan fydd digwyddiadau casineb yn cael eu hadrodd i ni. Caiff achos ei drin fel y cyfryw os credir y dioddefwr bod digwyddiad wedi'i ysgogi gan gasineb oherwydd ei hunaniaeth.

9.4 Fel rhan o ymrwymiad Adra i weithio mewn partneriaeth, byddwn yn cefnogi ac yn annog y dioddefwr i adrodd am y digwyddiad i'r heddlu neu asiantaeth wirfoddol arall os ydynt yn dymuno. Mae digwyddiadau troseddau casineb yn cael eu holrhain yn genedlaethol, a byddwn yn egluro pwysigrwydd adrodd i'r heddlu, hyd yn oed os yw at ddibenion adrodd yn unig. Byddwn yn gwrando ar y dioddefwr ac yn gweithredu ar ei ddymuniadau.

9.5 Byddwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth, yn ogystal ag esbonio pa gymorth arall sydd ar gael gan asiantaethau eraill.

9.6 Byddwn yn ymchwilio i bob digwyddiad casineb a adroddir gan ein Deiliaid contract/ Preswylwyr sydd wedi'u cyflawni gan Ddeiliad contract / Preswylwyr eraill. Lle'r ydym yn ystyried bod cyfiawnhad dros weithredu yn erbyn y Cyflawnwr, gallwn ddefnyddio un, neu fwy o'n hystod o fesurau atal a gorfodi (a restrir yn 4.2 a 4.3 o'r Polisi hwn) sydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth wrth wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, sydd eu hangen a byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad.

9.7 Byddwn yn categoreiddio digwyddiadau casineb fel categori ar wahân o fewn ein system rheoli achosion. Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar nifer y digwyddiadau yn ymwneud â chasineb a adroddir i ni.

9.8 Byddwn yn cyfeirio at y canllawiau a nodir yn ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## 10. MATERION GYDAG UNIGOLION NAD YDYNT YN DDEILIAD CONTRACT I NI

10.1 Ni allwn osod rhwymedigaethau contractiol ar unigolion nad ydynt yn ddeiliaid contract i ni.

10.2 Fodd bynnag, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu ein deiliaid contract, cyflogeion, asiantau a chontractwyr sy'n dioddef YGG yn neu o gwmpas ein cartrefi.

10.3 Os gwneir cwyn i ni lle nad oes unrhyw barti yn deiliad contract, gallwn gyfeirio'r mater at asiantaeth arall er enghraifft yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd.

10.4 Gallwn ystyried defnyddio gwaharddebau i wahardd person sy'n cymryd rhan mewn YGG rhag mynd i mewn i eiddo neu dir sy'n eiddo i ni.

10.5 Mewn achosion lle mae cwyn yn ymwneud â deiliad contract landlord cymdeithasol cofrestredig arall, byddwn yn ymgynghori â nhw neu'n cyfeirio'r mater atynt.

## 11. CYFRINACHEDD, RHANNU DATA A DIOGELU DATA

11.1 Rydym yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chytundebau eraill at ddibenion diogelu ein buddiannau a/neu eraill ac i atal YGG.

11.2 Rydym wedi ymrwymo i gadw at delerau rhannu gwybodaeth yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys GDPR.

11.3 Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth neu gwynion yn ddienw, byddwn yn cymryd gofal i sicrhau nad yw'r wybodaeth yn ffug neu'n faleisus.

## 12. HYFFORDDI STAFF

12.1 Mae staff sy'n delio ag YGG wedi'u hyfforddi'n briodol.

12.2 Byddant yn mynychu hyfforddiant i'w diweddaru a seminarau pan fydd newidiadau i ddeddfwriaeth YGG neu pan fydd rheolwyr neu staff yn adnabod yr angen am hyfforddiant.

12.3 Bydd ein staff yn cael eu harwain/cynorthwyo gan ein Tîm Cyfreithiol i baratoi ffeiliau ar gyfer achosion llys a chymryd datganiadau.

## 13. AMDDIFFYN EIN STAFF

13.1 Mae lles, iechyd a diogelwch ein staff yn cael ei gymryd o ddifrif, ac mae nifer o fesurau ar waith i helpu i'w cadw'n ddiogel gan gynnwys:

- Gweithdrefnau gweithio'n unigol
- Ymweliadau ar y cyd ag aelodau eraill o staff a/neu'r Heddlu
- Rhoi ffonau symudol a larymau personol
- Asesiadau Risg Rôl
- Camera ar y Corff

- Cynnig Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
- Gwasanaeth Cwnsela Staff

13.2 Mae digwyddiadau lle mae staff yn cael eu bygwth, eu cam-drin, neu hyd yn oed eu niweidio yn cael eu cymryd o ddifrif. Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i ymdrin â digwyddiadau o'r fath gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael.

13.3 Ym mhob achos pan gaiff lles, iechyd a diogelwch staff eu cyfaddawdu, gellir cyfeirio'r mater at yr Heddlu

## 14. Cwynion

14.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i gyflwyno cwyn mewn cysylltiad â'r ymarfer o'r polisi hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei drin o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon

14.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol

## 15. ADOLYGU PENDERFYNIAD

15.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin o dan ein proses Adolygu Penderfyniad - CCp04c.

15. 2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol

## 16. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

16.1 Rydym yn cydnabod y gall YGG gynnwys aflonyddu sy'n cael ei ysgogi gan ragfarn. Mae ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith.

16.2 Mae'r polisi yn datgan y bydd gan bawb gyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau.

16.3 Wrth weithredu'r polisi hwn, **bydd y rhai** sy'n destun YGG wedi'i dargedu **o ran unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a restrir yn 9.1 a 9.2**, yn cael cynnig amrywiaeth o drefniadau cefnogol, yn dibynnu ar anghenion y dioddefwr.

## 17. CYFEIRNODAU

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
- Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Camddefnydd Cyffuriau 1971
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

## 18. ADOLYGU

18.1 Bydd y polisi a'r weithdrefn yma yn cael eu hadolygu bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisïau perthnasol.

| **Rhifyn** | **Dyddiad** | Sylwadau (Beth sydd wedi'i adolygu?) | **Ysgrifennwyd gan** | **Cymeradwyo ar gyfer cynnwys** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Awst 2012 | Adolygu'r Ddogfen Wreiddiol Ebrill 2010 | Geraint Jones | |
| 2 | Medi 2012 | Addasu templed y polisi | Geraint Jones | |
| 3 | Mai 2013 | Newidiadau i baragraff 12.1 | Geraint Jones | |
| 4 | Mai 2015 | Adolygu polisi yn unol â chreu Deddf YGG, Troseddu a Phlismona 2014 | Geraint Jones | |
| 5 | Medi 2018 | Adolygiad 3 blynedd o'r ddogfen | Geraint Jones | |
| 6 | Ebrill 2019 | Diwygiad i A 7.1 mewn perthynas â Thenantiaethau Rhent Canolradd a Marchnad Rhent | Geraint Jones | |
| 7 | Hydref 2019 | Diweddariad i gynnwys brandio Adra | Geraint Jones | |
| 8 | Chwefror 2020 | Wedi'i ddiweddaru i ganllawiau ysgrifennu newydd Adra. | Epic PR | Geraint Jones |
| 9 | Ebrill 2022 | Diweddarwyd yn dilyn adolygiad 3 blynedd, | Geraint | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Terminoleg Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a chanfyddiadau Archwiliad YGG Mazars | Jones | |
| 10 | Hydref 2022 | Mân ddiweddariadau ychwanegol yn ymwneud â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Mari Pritchard | Sarah Riley |

**ATODLEN 1**

**DATGANIAD O WEITHDREFNAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut a phryd i roi gwybod i ni am ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) a beth ellir ei wneud i ddatrys y sefyllfa.

| Dyma enghreifftiau o ymddygiad yr ydym yn ei ystyried yn wrthgymdeithasol | Enghreifftiau o ymddygiad nad ydynt yn wrthgymdeithasol yn ein tyb ni |
|---|---|
| Sŵn Gormodol (e.e. chwarae cerddoriaeth yn uchel, sgrechian, gweiddi, clepian drysau) | Babanod/plant bach yn crio |
| Aflonyddu/Bygythiadau/Cam-drin geiriol | Partïon untro neu farbeciws lle nad oes |
| | tystiolaeth y bydd y broblem yn codi eto |
| Niwsans gardd | Plant yn chwarae |
| Taflu neu gronni sbwriel | |
| Anifeiliaid anwes/anifeiliaid (e.e. yn achosi difrod, gwneud sŵn gormodol, ymddwyn mewn modd bygythiol, baeddu mannau). | Sŵn gweithgareddau dydd i ddydd yn cario oherwydd inswleiddio sŵn gwael (e.e. cyfarpar domestig, drysau cypyrddau ayyb) |
| Loetran mewn mannau cyffredin | Ymddygiad dydd i ddydd yn digwydd ar amseroedd anarferol (e.e. oherwydd patrymau gwaith gwahanol). |
| Graffiti a/neu Fandaliaeth | |
| Cymryd/delio, meddu, trin, tyfu, cynhyrchu, storio neu werthu cyffuriau | |
| Cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol | |
| Ymddygiad yn ymwneud ag alcohol | |
| Digwyddiadau yn ymwneud â chasineb gan gynnwys ar sail hil, lliw, crefydd, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. | |
| Geiriau neu ymddygiad sarhaus | |
| Puteindra | |

| | |
|---|---|
| Cadw nwyddau wedi'u dwyn yn yr eiddo | |
| Defnyddio’r eiddo at ddiben caethwasiaeth | |
| Ymddygiad amhriodol mewn perthynas â cherbydau (e.e. gyrru'n beryglus, gwneud sŵn gormodol gyda cherbydau, parcio mewn mannau amhriodol, rhwystro ffyrdd a/neu unrhyw fynediad arall i gerbydau neu achosi rhwystr). | |
| Ymyrryd neu ymyrryd ag unrhyw nwy, trydan, mesurydd dŵr neu unrhyw osodiadau eraill sy'n gwasanaethu'r eiddo | |
| Ymddygiad troseddol arall | |

## 2. Adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol

2.1 Gallwch roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy:

- Ffôn: 0300 123 8084
- E-bost– ymholiadau@adra.co.uk
- Neu yn bersonol yn un o’n swyddfeydd.

2.2 Os ydych yn dymuno cyflwyno cwyn y tu allan i oriau agor y swyddfa, dylech gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru yn gyntaf ar 101 er mwyn adrodd am y mater ond dylech gysylltu ag Adra cyn gynted â phosib i’w hysbysu am y digwyddiad.

2.3 Os ydych o’r farn bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn un o natur droseddol, neu a all arwain at drosedd yn cael ei chyflawni, yna dylech gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru yn syth ar 999.

## 3. Prosesu cwyn am YGG

3.1 Byddwn yn ceisio:

### 3.2 Delio â'ch cwyn yn brydlon

- Pan fyddwch yn cofrestru cwyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddwn yn ceisio delio ag ef.
- Bydd y gŵyn yn cael ei ddynodi i weithiwr penodedig yn y Tîm Gwasanaethau Bro cyn gynted â phosib. Byddwn yn:
- Ceisio cydnabod eich cwyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig o fewn 3 diwrnod gwaith.
- Ceisio cysylltu â chi o fewn:

- 5 diwrnod gwaith i gael manylion llawn o'ch adroddiad YGG
- 1 diwrnod gwaith os yw eich cwyn yn ymwneud â throsedd casineb, trais domestig neu YGG difrifol.

Gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, dros y ffôn, neges testun, e-bost neu ar lein.

- Darparu cygor a chefnogaeth os byddwch yn dod yn rhan o anghydfod gyda chymydog a lle bo'n briodol cynnig ffordd o gyfryngu.

**3.3 Bod yn glir gyda chi o ran beth allwn ni ei wneud**

- Ceisio cysylltu â chi i drafod materion ym mhreifatrwydd eich cartref, neu os yw'n well gennych, mewn lleoliad arall.
- Eich cynghori ar beth allwn ei wneud i ddelio â'r broblem a sefydlu beth na allwn ei wneud
- Gweithio gyda chi i wneud cynllun gweithredu gan amlinellu beth fydd yn cael ei wneud a gan bwy
- Byddwn yn cadw manylion adnabod achwynwyr yn gyfrinachol os gofynnwyd i ni wneud hynny, fodd bynnag, efallai y bydd natur ac amgylchiadau rhai cwynion yn ei gwneud yn amlwg pwy sy'n cwyno.
- Os yw'n briodol, gweithio gyda chi i geisio datrys y broblem gan egluro'n glir i chi beth fydd yn digwydd ym mhob cam o'r achos
- Lle'n briodol byddwn yn ceisio cysylltu â chyfweld y bobl sy'n gyfrifol am yr YGG lle maent wedi'u hadnabod o fewn 10 diwrnod gwaith ers cyfweld yr unigolyn sydd wedi gwneud y gŵyn.
- Ystyried yr achos am gynnig cyfryngu
- Cynnig cyngor a chael eich cyfeirio at asiantaethau mwy priodol pan na fedrwn ni helpu.
- Fel arfer, bydd achosion yn cael eu cau yn dilyn dim cyswllt pellach gan yr achwynydd am bedair wythnos, neu ddiffyg YGG o fewn y cyfnod hwnnw. Byddwn yn cysylltu â chi cyn cau eich achos trwy alwadau ffôn, SMS, e-bost, ar-lein neu wyneb yn wyneb.
- Gellir ail-agor achosion os bydd adroddiadau pellach am broblemau yn codi.

**3.4 Sicrhau eich bod chi'n cael eich cefnogi**

- Cynnig cymorth i'r unigolyn sy'n cwyno am YGG, ac i dystion eraill neu'r bobl sy'n cael eu heffeithio, drwy roi gwybod i chi am swyddog sydd wedi'i enwebu i ymdrin â'ch achos a threfnu cyswllt gan ein Swyddogion neu Bartneriaid.
- Byddwn yn ceisio cysylltu â chi bob pythefnos ynglŷn â'ch achos parhaus, i gynnig neu i geisio diweddariadau. Gall cyswllt fod trwy gyfrwng galwadau ffôn, SMS, e-bost, ar-lein neu wyneb yn wyneb.
- Os yw'r achos yn ymwneud â phobl fregus, yn ddioddefwyr neu'n gyflawnwr, efallai y byddwn yn cynnig cefnogaeth i'r achwynydd a'r sawl sy'n achosi'r YGG e.e. lle mae materion fel iechyd meddwl i'w hystyried.

- Egluro'r weithdrefn yn glir i dystion pan fydd achosion yn cael eu cyfeirio at weithredu'n gyfreithlon ac yn y pen draw i'r Llys
- Rhoi'r adnoddau i gofnodi manylion unrhyw ddigwyddiad yr ydych chi'n ei brofi neu ei dystio. Bydd yr wybodaeth hon o gymorth i ni benderfynu ar beth ddylem ei wneud a hefyd y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth os yw achos yn mynd ymlaen i'r llys. Gallai methu â chofnodi tystiolaeth olygu nad oes modd i Adra weithredu ar y mater.

**3.5. Gwaith ag asiantaethau eraill**

3.5.1 Byddwn yn gweithio ag eraill i geisio datrys y sefyllfa. Efallai y byddant yn cysylltu â phartneriaid eraill i rannu gwybodaeth a fydd o gymorth i ymdrin â'r broblem. Gall hyn gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol neu Gymorth i Ferched.

## 4. Opsiynau sydd ar gael

4.1 Mae ystod o opsiynau gweithredu ar gael i ni. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Cyfryngu
- Rhybudd Terfynol
- Gwasanaethau Ataliol
- Cyfiawnder Adferol â'r Heddlu a Phartneriaid eraill
- Gwaharddebau Cartref
- Ymgymeriadau
- Gorchymyn yn gorfodi contract safonol cyfnodol oherwydd ymddygiad sydd wedi'i wahardd
- Achosion meddiant
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

## 5. Monitro'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gennym

5.1 Byddwn yn monitro YGG a'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu i fynd i'r afael ag o. Byddwn yn defnyddio mesurau perfformiad yn ogystal ag adborth defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gwella'n barhaus.

5.2 Rydym yn monitro ein gwasanaethau gan ddefnyddio holiadur defnyddwyr gwasanaeth.

5.3 Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth yr ydych chi'n ei dderbyn yn dilyn i chi adrodd am YGG, byddwn yn:

- Eich cyfeirio at y polisi cwynion
- Eich cyfeirio at y weithdrefn adolygu penderfyniad
- Eich galluogi i gofnodi eich cwynion mewn sawl ffordd e.e. ffôn, llythyr, e-bost neu, drwy ymweld ag un o'n swyddfeydd.
- Cyfeirio eich cwyn at ein rheolwr gwasanaethau cwsmer er mwyn ei ymchwilio

## 6. Casglu Data

6.1 Wrth ofyn am wybodaeth neu roi gwybodaeth i asiantaethau eraill e.e. yr Heddlu byddwn yn cadw at brotocolau sydd wedi'u cytuno.

6.2 Eithriad i hyn fydd pan ystyrir bod yr unigolyn mewn risg mewn unrhyw sefyllfa neu fod yn risg uchel o niwed difrifol i unrhyw un yn y sefyllfa a ddisgrifir.

6.3 Ni roddir gwybodaeth i drydydd parti nad ydynt yn rhan o’r achos heb ganiatâd yr achwynydd, fodd bynnag mae gennym ddyletswydd i ddatgelu os bydd y mater a adnabyddir yn un o risg neu niwed arwyddocaol yn unol â Pholisi Diogelu Grwpiau Agored i Niwed.

## 7. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

7.1 Rydym yn cydnabod y gall YGG gynnwys aflonyddu hiliol a mathau eraill o aflonyddu sy'n cael ei ysgogi gan ragfarn.

7.2 Mae ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith

7.3 Mae'r polisi yn datgan y bydd gan bawb gyfle cyfartal wrth gael mynediad at wasanaethau.

7.4 Wrth weithredu’r polisi hwn, bydd deiliaid contract sy’n destun YGG wedi’i dargedu o ran casineb, gwahaniaethu ar sail hil ac anabledd yn cael cynnig amrywiaeth o drefniadau cefnogol, yn dibynnu ar anghenion y dioddefwr.

## 8. Adolygiad

8.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newidiadau i bolisi arall perthnasol Adra.